


**Adolygu Polisi a Pherfformiad**
**Pwyllgor Craffu**

# Adroddiad Blynyddol 2018-19

**Mehefin 2019**

**Cyngor Caerdydd**

CARDIFF
CAERDYDD

*"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /*

*This document is available in English".*

**CYNNWYS**


**Aelodaeth Pwyllgorau** **3**

**Rhagair y Cadeirydd** **4**

**Trosolwg** **6**

**Cyfrifoldebau'r Pwyllgor** **7**

**Rhaglen Waith 2018/19 - yr ystadegau** 8

**Uchafbwyntiau 2018/19** **9**

Craffu ar sail Partneriaeth 9
Craffu ar y Cyd 11
Datblygu/Ymgynghori ar Bolisiau 11
Craffu Cyn Penderfynu 13
Monitro Gwelliant 15
Monitro Perfformiad 18
Briffiau 20
Ymchwiliadau Gorchwyl a Gorffen 22

**Cyfleoedd Rhaglennu Gwaith y Dyfodol 2019/20** **26**

Cylch Gorchwyl Pwyllgorau **27**

# Aelodaeth Pwyllgorau 2018/19



Y Cynghorydd David Walke
**Cadeir**



Y Cynghorydd Rodney Berman



Y Cynghorydd Bernie
Bowen Thomson



Y Cynghorydd Joe Boyle



Y Cynghorydd Lyn Hudson



Y Cynghorydd Norma Mackie



Y Cynghorydd Ashley Lister



Y Cynghorydd Stephen Cunnah

# Rhagair y Cadeirydd

Mae Craffu yn ganolog i'r broses ddemocrataidd ac, ar ei orau, gall gael effaith gadarnhaol ar unrhyw sefydliad. Yn nhermau Awdurdodau Lleol, mae'r fath effeithiolrwydd yn dibynnu ar lefel y gefnogaeth y mae craffu'n ei derbyn gan Aelodau, Swyddogion a'r Cabinet. Mae'n gofyn am lefel o ymrwymiad gan bob un o'r tri, a all alluogi'r Cyngor i elwa ar y gwerth ychwanegol y gall craffu ei gynnig. Mae Aelodau pob parti wedi gweithio'n galed dros y blynyddoedd diweddar i sicrhau bod Caerdydd yn awdurdod a arddangoswyd fel model o arfer da. Er mwyn cynnal a chadw'r llwyddiant hwn, bydd ar y gefnogaeth y mae craffu'n ei derbyn ar bob lefel angen asesu, adolygu a gwella parhaus.

Craffu yw'r mecanwaith sy'n galluogi llawer o Gynghorwyr anweithredol i gyfoethogi'r Weithrediaeth yn gwneud penderfyniad. Mae angen i ni gynyddu'r ymdrechion i annog pob Cynghorydd anweithredol i gymryd rhan mewn craffu, gan ddod â'i arbenigedd annibynnol ei hun i rym ar strategaethau, polisiau a materion gweithredol. Mae Pwyllgor Craffu yn llwyddo yn ôl cryfder sgiliau cwestiynu Aelodau, eu hymgysylltiad â'u hymrwymiad dros y flwyddyn.

Mae' ar y Cylch Gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor hwn angen ymrwymiad llawn i ddeall cymhlethdodau a heriau rhedeg sefydliad effeithlon, effeithiol a all ddarparu'r gwasanaethau gorau oll. Mae ei frîff eang yn cynnwys pob agwedd ar greu a datblygu polisiau a gall y maes perfformio sôn yn fyr am bopeth y mae'r Cyngor yn ei wneud, o weithgarwch ar y lefel gweithredu rheng flaen i'r gwaith cefnogi pwysig yn y swyddfa gefn. Arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel yw' gyrrwr allweddol llwyddiant adrannol a sefydliadol.

Mae gan graffu y potensial i wneud ymchwil ac i ymchwilio i feysydd polisi a pherfformiad problemus, i gynnig ac i asesu atebion arloesol ac i dorri trwy ddiddordebau personol confensiynol. Fodd bynnag, nid yw meintioli effaith y broses Graffu yn beth syml. Mae pob adroddiad craffu manwl yn cynhyrchu nifer fawr o argymhellion, llawer ohonynt yn cael eu derbyn gan y Cabinet. Ond a gânt eu dilyn trwodd a'u gweithredu ac a ydynt i gyd yn creu'r effaith a ragwelwyd? Sut mae mesur hynny ac adrodd arni? A y rheswm hwn, ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor yn gweithio ar fodel i gipio effaith craffu. Mae ychydig o fodelau ar gael yn rhywle arall felly byddwn yn ceisio dylunio model i fesur effeithiolrwydd craffu y gellir ei ddefnyddio yng Nghaerdydd ac o bosibl yn rhywle arall. Y gobaith yw y bydd gan Swyddfa Archwilio Cymru ddiddordeb yn ein darganfyddiadau a'n hargymhellion, wedi amlygu hwn fel mater sy'n haeddu ymchwil, dadansoddi ac adrodd.

Eleni, atgyfnerthodd y Pwyllgor Craffu ar Adolygu Polisi a Pherfformiad fudd ymgysylltu aelodau craffu â chynllunio corfforaethol, gan arwain y broses a alluogodd pob un o bum Cadeirydd y Pwyllgor Craffu i asesu gosod targedau yn y Cynllun Corfforaethol mewn trafodaeth agored ac adeiladol gyda'r

Arweinydd, y Prif Weithredwr ac Aelodau'r Cabinet. Mae'r Arweinydd wedi dweud bod yr ymgysylltu hyn wedi helpu i gyflawni Cynllun Corfforaethol 2019-22 gwell ar gyfer dinasyddion Caerdydd.

**Cyflawni Rhaglen yr Uchelgais Prifddinas**

Bu'r Rhaglen Uchelgais Prifddinas yn ganolbwynt canolog i'n gwaith drwy gydol mis Mawrth, mis Ebrill a mis Mai 2019. Rydym wedi croesawu tyniant newydd Strategaeth Ddigidol y Cyngor fel cynllun hirdymor sy'n ganolog i gyflawni'r rhaglen hon. Wedi atgyfnerthu ein dealltwriaeth o'r Rhaglen, yn 2019/20 byddwn yn chwilio am dystiolaeht bod y Rhaglen Cyflawni Uchelgais Prifddinas (CADP) yn cyflawni, a byddwn yn annog pwyllgorau craffu eraill i ffactora monitro project CADP i mewn i'w rhaglennu gwaith.

**Absenoldeb Salwch**

Rydym wedi cadw ein ffocws ar sut mae'r Cyngor yn parhau i fynd i'r afael â lefelau absenoldeb salwch, gan ddilyn ein hymchwiliadau blaenorol i fyny. Clywsom y bu nifer o fentrau diweddaru wrth fynd i'r afael ag absenoldeb salwch. Fodd bynnag, mae'r alldro yn nhermau diwrnodau cyflogeion a gollwyd oherwydd absenoldeb wedi codi ac mae wedi methu bwrw targed Cynllun Corfforaethol y Cyngor gan gryn bellter. Mae cost flynyddol sylweddol ynghlwm wrth lefelau absenoldeb cyflogeion uchel ac mae Cynghorau eraill yng Nghymru yn adrodd am ganlyniadau gwell. Byddwn yn parhau i fonitro hyn yn fanwl.

Ar lawer o achlysuron eleni mae ein hadborth i'r Cabinet wedi amlygu, fel cynrychiolwyr lleol, bod gan Aelodau brofiad sylweddol gan yr Aelodau o effeithiolrwydd gwasanaethau rheng flaen y Cyngor. Rydym wedi annog y rhai sy'n gyfrifol i ymgysylltu â'r holl Aelodau, gan gynnwys trwy'r broses graffu, wrth chwilio am wneud gwelliannau. Mae gan Aelodau brofiad o ymdrin â'n cwsmeriaid ar lawr gwlad, a chânt wybod am y camgymeriadau a'r methiannau hynny o ran wasanaeth a all beri anfodlonrwydd ac yn helpu eu datrys. Dylai'r Cyngor ddefnyddio'r profiad gwerthfawr hwn.

Rwy'n cynnig fy niolchiadau i bob Aelod o'r Pwyllgor yn ogystal ag i'r tystion sydd wedi ymddangos gerbron y Pwyllgor eleni, gan gynnwys Aelodau Cabinet, swyddogion y Cyngor a thystion allanol.

Rwy'n cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol 2019/20 hwn o'r Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad.



**Cadeirydd Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad**

## Trosolwg

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys gwaith y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn cyngor 2018/19, gan ddechrau ym mis Mehefin 2018 ac yn gorffen ym mis Mai 2019. Mae'n esbonio'r llu o fathau gwahanol ar graffu y mae'r Pwyllgor wedi ymgymryd â nhw yn ystod y cyfnod hwn, yn categoreiddio'r gwahanol bynciau a ystyriwyd ac yn cyflwyno uchafbwyntiau a chanlyniadau ei waith yn 2018/19, o *dudalen 9* ymlaen.

Eleni mae'r Pwyllgor wedi ail-gadarnhau budd ymgysylltu aelodau craffu â chynllunio corfforaethol, gan gynnal sesiwn anffurfiol lle y cyflwynodd pob un o'r pum cadeirydd craffu bryderon ei pwyllgor er mwyn arwain gosod targedau yn y cynllun corfforaethol. Mewn trafodaeth agored ac adeiladol, croesawodd yr Arweinydd a'r Cabinet yr ystod eang o safbwyntiau'r aelodau craffu gwybodus, ac mewn ymateb gwnaethant lwyddo i gyflwyno Cynllun Corfforaethol ystyrlon a chynhwysol 2019-22 ar gyfer dinasyddion Caerdydd.

Gan gofio effaith y craffu, mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i sicrhau bod gwerth a defnyddioldeb y gwaith craffu wrth arwain y Cyngor wrth wneud penderfynu yn cael ei gydnabod. I'r diben hwnnw, mae ymchwiliad yn mynd rhagddo gan archwilio modelau o gipio'r effaith mae craffu yn ei chael. Bydd hefyd yn ceisio argymell systemau priodol i fesur effaith craffu a monitro pa mor dda y caiff argymhellion a dderbynnir gan y Cabinet eu gweithredu.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i ganolbwyntio ar Absenoldeb Salwch o ystyried ei fod yn parhau'n her allweddol i'r Cyngor. Ymgymerom â chraffu byr manwl ym mis Medi 2018, ac wedi ymgysylltu'n llwyddiannus â'r gwasanaeth Adnoddau Dynol i gomisiynu ymchwil craffu a fydd o fud i'r gwasanaeth wrth fynd i'r afael â'r mater.

Yn olaf, eleni rydym wedi derbyn adborth calonogol gan y tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid a Digidol, wedi derbyn ymateb a chynllun gweithredu cadarnhaol

gan y Cabinet ar gyfer y dyfodol yn dilyn ein ymchwiliad Gwasanaeth Cwsmeriaid yn 2017/18.

Byddwn yn parhau i fonitro sut mae’r nod o newid ffocws y cwsmer a diwylliant y Cyngor yn datblygu.

## Cyfrifoldebau’r Payllgor

Mae Cylch Gorchwyl Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad yn rhoi iddo ddwy rôl craffu. Yn gyntaf, cyfrifoldeb cyffredinol o graffu, monitro ac adolygu perfformiad corfforaethol cyffredinol y Cyngor a’i wella. Yn ail, craffu, monitro ac adolygu effeithiolrwydd swyddogaethau penodol, megis y fframwaith Cynllunio Corfforaethol a Gwelliant, y Rhaglen Cyflawni Uchelgais Prifddinas, Cyllid, TGCh, Adnoddau Dynol, Llywodraethu, Gwasanaethau Cyfreithiol, Eiddo, Caffael, Gwasanaeth Cwsmeriaid a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

O fewn y strwythur sefydliadol presennol mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor[1] yn penderfynu bod ei gyfrifoldebau’n dod o dan tri o Cyfarwyddiaethau; fel a ganlyn

Mae’r **Gyfarwyddiaeth Adnoddau Corfforaethol** yn dod o dan cylch gorchwyl y Pwyllgor yn ei gyfanrwydd ac mae’n cynnwys; *Comisiynu a Chaffael; Cyllid; Adnoddau Dynol; Digideiddio a Gwasanaethau Cwsmer (gan gynnwys* Cwynion Corfforaethol a Cysylltu â Chaerdydd (C2C); *Perfformiad a Phartneriaethau (gan gynnwys Caerdydd Ddwyieithog).*

Mae’r **Gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd** yn cynnwys *Landlord Corfforaethol, Ystadau Strategol,* gan gynnwys y portffolios *gweithredol* ac anweithredol, *Rheoli Cyfleusterau* a *Pholisi Rhyngwladol.*

[1]Gylchoedd Gorchwyl y Cyngor ar gyfer y Pwyllgor - gellir dod o hyd iddynt ar dudalen 26.

Mae’r **Gyfarwyddiaeth Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol** yn rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor yn ei chyfanrwydd ac yn cynnwys *Gwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau*; *Gwasanaethau Etholiadol*; *Cydraddoldeb*; *Archifau Morgannwg*; *Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaethau Craffu.*

## Rhaglen Waith 2018/19 - yr ystadegau

Drwy gydol 2018/19 mae’r Pwyllgor llawn wedi cynnal 11 o gyfarfodydd cyhoeddus fel y rhaglenwyd yng nghalendr cyfarfodydd y Cyngor, ac wedi craffu ar 23 o adroddiadau gan ymwneud ag amrywiaeth o bynciau yn unol â’i Gylch Gorchwyl. Arweiniodd hyn at 24 o lythyrau at y Cabinet a’r Uwch Dîm Rheoli, yn rhannu sylwadau, pryderon ac argymhellion y Pwyllgor yn dilyn craffu. Fel ymateb, daeth 16 o lythyrau i law'r Pwyllgor oddi wrth y Cabinet.

Mae llwyddiant Craffu yn dibynnu ar gapasiti, sgiliau a datblygiad yr Aelodau hynny sy’n eistedd ar Bwyllgorau Craffu. Bu rhywfaint o symud ar Aelodaeth y Pwyllgor drwy gydol y flwyddyn, er yn gyffredinol cadwyd presenoldeb da. Ym mis Mehefin 2018, cyflawnodd cyfarfod y Cyngor Blynyddol ddau newid o ran aelodaeth. Croesawodd y Pwyllgor y Cynghorwyr Hudson a Lister i gymryd lle y Cynghorwyr McKerlich ac Owen Jones. Yn anffodus, bu farw’r Cynghorydd Jim Murphy, aelod uchel ei barch o’r Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2018, wedi cyfrannu blynyddoedd lawer i’r Pwyllgor a’i grwpiau gorchwyl. Yn ddiweddar gadawodd y Cynghorydd Stephen Cunnah y Pwyllgor, ar ôl bod yn y swydd ers ei dechrau gyda’r weinyddiaeth newydd ym mis Mai 2017. Eleni, gwirfoddolodd tri aelod i gymryd rhan mewn ymchwiliad gorchwyl a gorffen sy’n mynd rhagddo, *Effaith Craffu* Hefyd cytunodd y Pwyllgor i barhau i gefnogi is-grŵp Panel Perfformiad, y gwirfoddolodd pedwar Aelod ar ei gyfer, ac a gyfarfu ddwywaith yn ystod y flwyddyn.

Mae gwe-ddarlledu trafodion yn parhau’n ddyhead i’r Pwyllgor, ac er ei fod wedi gwe-ddarlledu dau gyfarfod yn 2018/19, yn y dyfodol bydd mwyafrif ei gyfarfodydd yn 2019/20 ar gael i’w gweld gan bartion sydd â diddordeb. Felly

mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at barhau a gwella ymgysylltu tryloyw, ac at chwarae ei ran wrth gyfrannu at ddangosydd perfformiad gwe-ddarlledu y Cyngor.

I gefnogi ei waith, mae'r Pwyllgor yn parhau i fod ag un prif swyddog craffu amser llawn, cyfran o'r swydd ymchwilydd craffu a chefnogaeth gweinyddwr pwyllgor. Bu goruchwylio ei waith ar lefel uchel trwy Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd, a barhaodd gyda gwaith y Pwyllgor rhwng mis Mawrth a mis Mai yn absenoldeb dros dro y Prif Swyddog Craffu.

Mae'r Pwyllgor wedi defnyddio amrywiaeth o ymagweddau i archwilio'r pynciau y craffwyd arnynt. Rhestrir yr holl bynciau isod, wedi'u dadansoddi o dan y math o graffu perthnasol, ac mae detholiad wedi cael eu hamlygu er mwyn darlunio effaith y Pwyllgor yn 2018/19.

# Uchafbwyntiau 2018/19

## Craffu ar sail Partneriaeth

***Pan fydd y Pwyllgor wedi perfformio'r rôl statudol a gyflwynwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac a roddwyd iddo gan y Cyngor. Yn 2018/19 ystyriodd y Pwyllgor:***

**Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd**

Bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor a'i bartneriaid i sicrhau bod trefniadau llywodraethu mewn cyrff cyhoeddus ar gyfer gwella lles Cymru yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Ddeddf WFG yn rhagnodi sefydlu Corff Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus statudol (BGC) ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, y

mae ei aelodau craidd yn cynnwys yr Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol, yr Awdurdod Tân ac Achub; a Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae hefyd yn rhagnodi cylch gwaith statudol ar gyfer Craffu:

- dolygu penderfyniadau a wneir neu gamau a gymerir gan y BGC
- Adolygu trefniadau llywodraethu'r Bwrdd;
- Gwneud adroddiadau i'r Bwrdd yn gysylltiedig â'i swyddogaeth neu drefniadau llywodraethu; a
- Gofyn i aelodau'r BGC fynychu'r Pwyllgor.

Er mwyn mynd i'r afael â'r ddyletswydd hon mae Cyfansoddiad y Cyngor yn rhoi'r cyfrifoldeb statudol dros gynnal gofyniadau'r Ddeddf ar y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad ar gyfer craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd (CPSB). Felly yn 2018/19 parhaodd y Pwyllgor i berfformio craffu trosolwg strategol CPSB, gan groesawu Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, Cyfoeth Naturiol Cymru, a Gwasnaethau Tân De Cymru ym mis Mehefin 2018 ochr yn ochr ag Arweinydd y Cyngor fel Cadeirydd y CPSB. Y diben oedd ystyried ei drefniadau llywodraethu.

Sicrhawyd i'r Pwyllgor bod y Cynllun Cyflawni ar gyfer y Cynllun Llesiant y cytunwyd arno gan yr holl bartneriaid ar waith, a bod cynlluniau strategol wedi cael eu mapio er mwyn datblygu'r blaenoriaethau Llesiant a rennir, a byddai felly'n cael eu cymryd ymlaen o fewn eu Cynlluniau Strategol eu hunain.

Ceisiodd yr Aelodau eglurder o ran sut y byddai'r Pwyllgor yn gallu mesur cynnydd, yn benodol pa brojectau, cynigion a thargedau a fyddai'n ei alluogi i ddal y CPSB yn atebol.  Esboniodd yr Arweinydd fod y Cynllun Llesiant yn cynnwys 'camau' statudol sy'n nodi camau gweithredol ymarferol a bod y Cyngor wedi alinio ei Raglen Cyflawni Uchelgais Prifddinas er mwyn cefnogi projectau allweddol sy'n mynd rhagddynt o fewn y Byrddau Project, y mae eu gwaith yn cynnwys projectau aml-asiantaeth i gyflawni'r Cynllun Llesiant. Bydd y Pwyllgor yn gallu mesur cynnydd trwy ystyried adroddiad Blynyddol cyntaf y CPSB ym mis Gorffennaf 2019.

Mae Byrddau Rhaglen CPSB yn canolbwyntio ar brojectau allweddol. Fodd bynnag, o ystyried eu bod yn gyrff nad ydynt yn cynrychioli pob rhanddeiliad,

pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd aelodaeth yn cael ei chyfansoddi i sicrhau amrywiaeth.

## Craffu ar y Cyd

***Pan fydd y Pwyllgor wedi ymuno ag un neu fwy o bwyllgorau craffu i edrych ar destun trawsbynciol ei natur i alluogi'r gwaith o ystyried y problemau ar y cyd. Yn 2018/19 roedd hyn yn cynnwys:***

-  Craffu Cynllun Corfforaethol 2019-22 ar y cyd, gosod targedau *(Chwe'19)*

Unwaith eto mewn ysbryd o gydgynhyrchu galluogodd Panel Perfformiad y Pwyllgor i gynnal cyd-graffu anffurfiol o'r broses gosod targedau'r Cynllun Corfforaethol.  Gwahoddwyd pob Cadeirydd Craffu i gymryd rhan a sicrhaodd sesiwn werthfawr effaith craffu ar ddatblygu polisi ar gyfer pob un o'r pump pwyllgor craffu o fewn y broses Cynllunio Corfforaethol. Ystyriodd y sesiwn dargedau arfaethedig yn fanwl, gan ddarparu cyfle i fwydo arsylwadau ar draws pwyllgorau craffu i mewn i Gynllun Corfforaethol drafft terfynol Caerdydd 2019-22, cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cabinet ffurfiol.

Roedd yr Aelodau yn gallu sicrhau bod unrhyw newidiadau i fanylion Dangosyddion a Thargedau Perfformio'r Cynllun Corfforaethol, wedi'u gwneud o ganlyniad i drafodaeth gyda chadeiryddion craffu, yn cael eu cipio ac felly'n cael effaith dilysu gref o werth y craffu.

## Datblygu Polisi/ Craffu ar Ymgynghoriad

***Pan fydd y Pwyllgor yn cyfrannu at brosesau datblygu polisi'r Cyngor trwy ystyried dogfennau polisi drafft.  Yn 2018/19 ystyriodd y Pwyllgor;***

- Strategaeth y Gyllideb 2019/20 – wedi'i chanolbwyntio ar wasanaethau cymdeithasol *(Medi '18)*

- Gofyniad Lleihau'r Gyllideb 2019/20 ac Ymgynghoriad Newid i Gaerdydd *(Rhag '18)*
- Cynllun Corfforaethol Drafft 2019-22 *(Ion '19)*

**Strategaeth Gyllidebol a Newidiadau i'r Ymgynghoriad i Gaerdydd**

---

Mae'r Pwyllgor yn ystyried ei fod yn bwysig bod Aelodau'r Cyngor yn chwarae rhan weithredol wrth graffu ar newidiadau arfaethedig i'r gyllideb, er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor y cyllid ar waith i barhau i ddarparu gwasanaethau lleol cynaliadwy. Eleni ymgymerodd y Pwyllgor â goruchwyliaeth sylweddol ar Strategaeth Gyllidebol gan ganolbwyntio'n benodol ar yr heriau a wynebir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol *(Medi '18),* wedi'i dilyn gan ystyriaeth o'r Lleihad yn y Gyllideb ar gyfer 2019/20 *(Rhag '18)* a'r ymgymghoriad ar y gyllideb, Newid i Gaerdydd *(Rhag '18).*

Roedd canolbwyntio ar y Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Medi 2018 yn gyfle da i roi dealltwriaeth lawnach i'r Aelodau o'r gwydnwch ariannol sydd ar y gweill i fynd i'r afael â'r heriau y mae'r Gyfarwyddiaeth yn parhau i'w hwynebu. Clywodd yr Aelodau fod canolbwyntio ar atal yn hanfodol, gan nodi bod mwy o waith i'w wneud ar reoli galw, ardystio ymagwedd buddsoddi i arbed at ddatblygu gwasanaethau ataliol, edrychodd ymlaen i glywed canlyniadau o symud i ffwrdd o'r model presennol o leoli plant y tu allan o'r sir a'r effaith y byddai ffyrdd newydd o weithio gyda phartneriaid iechyd yn ei chael ar gyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Eleni mynegodd y Pwyllgor bryder am yr Ymgynghoriad Cyllidebol 2019/20, Newid i Gaerdydd. Roedd yn teimlo nad oedd yr ymgynghoriad yn syml i'w gwblhau ac yn gofyn am ymatebydd i gyrraedd barn cyn y ffigyrau ar gyfer barn wybodus. Awgrymodd yr Aelodau i'r cwestiynau gael eu canolbwyntio mewn adran y gellir ei datgysylltu, a soniodd fod rhai o'r cwestiynau yn rhai arweiniol. Roedd ganddynt bryderon ynglŷn â diffyg amlwg o ran profi cyn y

lansiad, gan ystyried y gallai'r arolwg wedi'i wella pe bai wedi'i brofi gyda Chynghorwyr, grwpiau lleiafrifol, ac yn benodol gyda'r Cyngor Ieuenctid. Fodd bynnag cefnogodd y Pwyllgor y Cyngor yn ei waith grŵp ffocws gyda grwpiau lleiafrifol amrwyiol o ran ethnigrwydd, gan ddefnyddio hwyluswyr sensitif a phriodol. Yn bwysig, argymhellodd yr Aelodau fod y Cabinet yn ffactora ymgysylltu â chraffu y flwyddyn i mewn i'w hamserliniau cynllunio ar gyfer yr ymgynghoriad cyllidebol 2020/21 y flwyddyn nesaf.

## Craffu Cyn Penderfynu

***Pan fo'r Pwyllgor wedi gwerthuso a gwneud sylwadau ar gynigion polisi cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet gan roi dealltwriaeth i'r Cabinet o farn yr Aelodau Craffu cyn gwneud eu penderfyniad. Yn 2018/19 ystyriodd y Pwyllgor;***

- Trefniadau Band B Capasiti a Llywodraethu *(Gorffennaf '18)*
- Prynu a gwerthu prydlesi *(Rhag '18)*
- Prynu argyfwng cerbydau'r strydlun *(Ion '19)*
- Cynllun Corfforaethol Drafft *(Chwe '19)*
- Cynigion Drafft ar gyfer y Gyllideb *(Chwe '19)*

### Cynllun Corfforaethol Drafft 2019-22

Dilynodd y Pwyllgor i fyny ar graffu datblygu polisi mis Rhagfyr y Cynllun Corfforaethol drafft 2019-22, gyda chraffu cyn penderfynu cynnar ar y Cynllun Corfforaethol 2019-22 yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2019. Clywodd yr Aelodau fod llawer o enghreifftiau o ymgysylltiad â Chraffu wedi dylanwadu ar y drafft a'i ffurfio hyd yn hyn, a chroesawodd cynnwys Camau i fewn i'r Cynllun, gan ei roi i mewn o ganlyniad i argymhellion Pwyllgor y llynedd.

Tynnodd yr Aelodau sylw at yr angen am archwiliad bellach o Gostau'r Asiantaeth, er mwyn nodi'r meysydd hynny lle y byddai'r Cyngor wir yn gallu

gwneud achos dros ddefnyddio staff asiantaeth tymor byr ac amlygodd y potensial am arbedion trwy leihau'r defnydd o weithwyr asiantaeth. Dywedodd y Pwyllgor wrth y Cabinet yn ei lythyr y byddai'n hoffi gweld strategaeth ar gyfer lleihau defnydd o asiantaethau, ac yn bwriadu ychwanegu'r pwnc hwn i'w ystyried yn rhaglennu gwaith y Pwyllgor yn y dyfodol.

Amlygodd y Pwyllgor unwaith eto fod gan rai Cyfarwyddiaethau rhy ychydig o KPIs i arfarnu perfformiad, ac anogodd ailystyried nifer y mesurau perfformiad (KPI's) o fewn y Cynllun Corfforaethol ar gyfer Cyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd.

Croesawodd y Pwyllgor addasiadau a diwygiadau sylweddol a wnaed i'r Cynllun Corfforaethol yn dilyn sylwadau ac arsylwadau o ganlyniad i ymgysylltu â chraffu, gan ddarparu tystiolaeth o effaith craffu. Mae'r Cabinet ac Aelodau PRAP yn cydnabod gwerth y cydweithredu effeithiol rhwng strategaeth gwneud polisi yr Awdurdod a swyddogaethau craffu o ran cryfhau llywodraethu'r sefydliad. Cydnabu'r Pwyllgor na allai'r Cynllun Corfforaethol fod yn holl-gwmpasog, fodd bynnag pwysleisiodd fod cael targed perfformiad lle y bod Cam i'w gyflawni yn bwysig. Esboniodd y Cabinet nad perthynas un wrth un rhwng Camau a dangosyddion perfformiad yw'r ffordd fwyaf priodol o drchio perfformiad bob amser, fodd bynnag, lle y bo'n briodol, bydd y Cynllun yn cynnwys KPI cyfatebol.

.

## Cynigion y Gyllideb Ddrafft 2019-20

Ym mis Chwefror 2019, unwaith eto craffodd y Pwyllgor y Cynigion Cyllidebol cyffredinol ar gyfer 2019-20, a chynigion cyllidebol penodol tair cyfarwyddiaeth sy'n berthnasol i'w gylch gorchwyl, *a Chyfarwyddiaethau Adnoddau, Datblygu Economaidd, a Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol.* Fodd bynnag, eleni neilltuodd amser hefyd i graffu'r Strategaeth Cyfalaf 2019/20

Yn ystod ystyried cyllideb y *Cyngor llawn,* sicrhaodd y Cabinet i'r Pwyllgor fod craffu ar y gyllideb yn werthfawr, a ddarluniwyd gan gynnydd a wnaeth yn ystod y flwyddyn i'r gronfa hapddigwyddiadau o ganlyniad trafodaeth sylweddol rhwng y Cabinet a'r PRAP yn ystod y flwyddyn flaenorol. Sicrhawyd i'r aelodau bod pob arbediad a ragwelir yn gadarn ac y gellir ei gyflawni, hyd yn oed y rhai yr asesir eu risg yn goch.

Unwaith eto mynegodd y Pwyllgor ei ddiddordeb mewn cael llun cliriach o'r gyllideb a ddyrannwyd i gyflogi gweithwyr asiantaeth, yn benodol costau yr eir iddynt gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn yr un ffordd, gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth ychwanegol parthed cyfraddau trosiant cyflogeion. Derbyniwyd y cais gan y Pwyllgor y byddai gwariant ar ymgynghorwyr allanol ar gyfer y flwyddyn ariannol yn ddefnyddiol i'w ystyried wrth graffu ar gyllideb y flwyddyn ganlynol.

Mynegodd yr Aelodau bryder fod disgwyl i wasanaethau llai gyflawni arbedion sy'n anghymesur o fawr yn y cynigion y daethpwyd ger bron i'w hystyried, fel y Gyfarwyddiaeth Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol, o'i gymharu â chyfarwyddiaethau mwy fel Rheoli Gwastraff. Enghraifft dda yw ailstrwythuro Polisi, Perfformiad ac Ymchwil, lle y disgwyliwyd i'r gwasanaeth gynnig arbediad o £204,000 ar gyllideb o £722,000.

Gwelodd y Pwyllgor fod y cyflwyniad ar Strategaeth Cyfalaf y Cyngor 2019/20, yn amlygu'r cysylltiad rhwng cyllidebau Cyfalaf a Refeniw, yn gyd-destun defnyddiol i'w graffu ar y gyllideb gyffredinol. Yn ystod hyn archwiliodd yr Aelodau gadernid adnoddu cyfalaf, gan dderbyn eglurhad, pan fydd y gyllideb yn cynnwys gwariant cyfalaf arfaethedig, yna mae cymeradwyaeth mewn egwyddor ar waith. Mae'n rhaid i broject cyfalaf gael cymeradwyaeth grant cyn mynd yn ei flaen a gall oedi o ran ariannu grantiau effeithio ar wneud penderfyniadau.

## Monitro Gwelliant

***Pan fo'r Pwyllgor wedi monitro cynnydd yn y gwaith o wella'r Cyngor.***

***Yn 2018/19, ystyriodd y Pwyllgor:***

- Uchelgais Digidol *(Gorffennaf '18)*
- Absenoldeb oherwydd Salwch *(Medi '18)*
- Adroddiad Llesiant Blynyddol Statudol *(Hyd' 18)*
- Cynllun Gweithredu Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog (*Ebrill '19)*

**Uchelgais Digidol**

Ym mis Gorffennaf croesawodd y Pwyllgor y Strategaeth Ddigidol fel cynllun hirdymor sy'n ganolog i gyflawni'r rhaglen Uchelgais Prifddinas. Roedd strwythur uwch-reolwyr newydd y Cyngor yn cynnwys penodi Prif Swyddog Digidol. Nododd y Pwyllgor egwyddorion allweddol y strategaeth, ac mae'n bwriadu ffactora'r cynllun gweithredu sy'n dilyn i mewn i'w raglen waith yn y dyfodol.

Ystyriodd yr Aelodau fod potensial sylweddol i'r strategaeth effeithio ar staff, a thynnodd sylw'r prif swyddog at y goblygiadau ar gyfer adnoddau, a'r arbedion a allai gael eu hachosi gan fwy o ddigideiddio gwasanaethau'r Cyngor.

Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau ar App Caerdydd sydd newydd ei lansio, fod ei swyddogaethau'n gyfyngedig a phwysleisiodd yr Aelodau y dylai fod cynnydd o ran y gwasanaethau y mae'n eu cynnig. Cynigiodd y Prif Swyddog i'r Pwyllgor gael gweld cynigion drafft ar gyfer trafodion arfaethedig yn y dyfodol. Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd dealltwriaeth yr holl Gynghorwyr o sut y byddai'r App yn eu cefnogi wrth iddynt gynrychioli dinasyddion Gan amlygu rhai problemau bach technegol yr oedd angen eu datrys, gwirfoddololodd Aelod o'r Pwyllgor ar gyfer y grŵp profi 'cynghorydd call'.

Mae'r Pwyllgor yn arbennig o awyddus sydd o dan anfantais ddigidol yn parhau'n ganolog i'r Strategaeth Ddigidol. Mynegodd nodyn o ofal fod rhaid i'r Cyngor fod yn gallu ymdrin â'r cynnydd posibl yn y galw y mae rhwyddineb mynediad yn debygol o'i greu.

## Absenoldeb oherwydd Salwch

---

Ym mis Medi 2018, dilynodd y Pwyllgor ei graffu byr o fis Ionawr 2018 ar absenoldeb oherwydd salwch i fyny, a chlywodd y bu mentrau newydd ar gyfer mynd i'r afael ag absenoldeb oherwydd salwch. Gosodwyd targed y Cyngor ar gyfer 2018/19 ar 9.5 o ddiwrnodau cyfwerth ag amser llawn. Rhagwelodd rhagolygon diwedd y flwyddyn 2018/19 yn chwarter y disgwyliwyd i lefelau absenoldeb ddisgyn o'u cymharu â'r ddwy flynedd flaenorol. Awgrymodd y rhagolygon, y gallai absenoldeb oherwydd salwch hyd yn oed ddisgyn yn is na chyfartaledd Cymru ar gyfer 2017/18 sef 10.4 o diwrnodau cyfwerth ag amser llawn a gollwyd gan bob cyflogai. Yr alldro gwirioneddol ar gyfer 2018/19 oedd 11.53 diwrnod, sy'n fwy nag y ragwelwyd drwy gydol y flwyddyn.

Roedd awgrymiadau pennod ar gyfer gwella'n disgyn allan o'r craffu yn cynnwys Aelodau'n argymell y dylai absenoldeb oherwydd salwch ym mhob ysgol fod yn eitem sefydlog ar agendau'r Corff Llywodraethu. O ganlyniad, yn ogystal ag anfon adroddiadau data chwarterol wedi'u meincnodi i Gadeirydd y Llywodraethwyr a Phennaeth pob ysgol, i'w trafod yng nghyfarfod nesaf y corff llywodraeth, gofynnwyd i'r clercod i'r corff llywodraethu sicrhau bod absenoldeb oherwydd salwch yn cael ei gynnwys ar yr agenda. Hefyd anogodd y Pwyllgor gwaith datblygu parhaus ar fonitro'r ysgolion wrth gymhwyso polisi absenoldeb oherwydd salwch y Cyngor.

Ystyriodd yr Aelodau y byddai'n ddefnyddiol gweld y data ar absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer Addysg wedi'i gyflwyno heb y gwasanaeth arlwyo. Bu hyn eisoes yn faes ffocws ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Addysg a datblygwyd cynllun gweithredu ar gyfer y gwasanaeth arlwyo. Darparwyd y wybodaeth wedyn.

Gofynnodd y Pwyllgor am gymhariaeth fwy manwl o arfer gorau gyda Chyngor Merthyr Tudful, a oedd wedi adrodd ar lefelau isel o absenoldeb oherwydd salwch. Caiff cymhariaeth fanwl o absenoldeb oherwydd salwch ei hadrodd i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Mehefin 2019.

Roedd yr Aelodau'n teimlo'n gryf fod gwerth i'r Cyngor gofnodi ffigyrau absenoldeb oherwydd problemau'r cefn a salwch cyhyrysgerbydol sy'n '*gysylltiedig â'r gwaith*' Cytunodd Prif Swyddog Adnoddau Dynol i drafod yr awgrym ymhellach gyda rheolwr Iechyd a Diogelwch y Cyngor.

Mynegodd y Pwyllgor ddiddordeb yn y ffigyrau absenoldeb oherwydd salwch ar gwasanaethau sy'n cynnwys swyddi gwag. Cytunodd y Prif Swyddog i archwilio hyn ymhellach, gan ddweud wrth yr Aelodau fod cydweithwyr Iechyd a Diogelwch yn adolygu asesiad ar risg o straen ar draws y Cyfarwyddiaethau, a gâi ei ddefnyddio i arwain ymyriadau ataliol a chymorth i staff wrth leihau straen yn y gweithle.

## Monitro Perfformiad

***Pan fo'r Pwyllgor wedi monitro perfformiad y Cyngor. Yn 2018/19, ystyriodd y Pwyllgor:***

- Perfformiad Chwarter 4 2017/18 (*Mehefin '18)*
- Perfformiad Chwarter 2 2018/19 (*Tachwedd '18)*

Dros y flwydd mae'r Pwyllgor wedi parhau i fonitro perfformiad ac yn bwysig mae wedi ceisio dylanwadu ar hygyrchedd y dull o adrodd am berfformiad. Mae wedi datblygu perthynas gadarnhaol gyda swyddogion perfformiad arweiniol, ac wedyn cafodd pryderon ac arsylwadau'r Pwyllgor eu derbyn mewn ffordd adeiladol. Mae'r Aelodau wedi bwydo yn ôl ar y materion canlynol a fydd yn parhau i arwain craffu ar berfformiad yn 2019/20:

- **Cyflwyniad/cynllun -** pwysigrwydd Aelodau'n gallu mynd at wybodaeth am berfformiad yn llwyddiannus, boed yn ddigido, neu drwy gerdyn sgorio lliw A3 wedi'i anfon ymhell ymlaen llaw er mwyn helpu wrth baratoi ar gyfer y Pwyllgor.
- **Mecanweithiau perfformiad -** *Coch, Ambr. Gwyrdd (RAG) Asesu a Hunan-arfarnu* - cododd y Pwyllgor bryderon ynglŷn ag ansawdd hunan-arfarnu, a pha mor effeithiol yr oedd y sefydliad yn cwestiynu effeithiolrwydd ei berfformiad. Nododd yr Aelodau angen am ddealltwriaeth well o'r meini prawf sy'n cael eu cymhwyso i'r hunan-asesiad RAG mewnol. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, sicrhawyd i'r Aelodau bod hunan-asesu gan wasanaethau wedi gwella, a bod mecanweithiau newydd ar waith fel bod monitro materion o arwyddocâd corfforaethol yn dod i'r amlwg yn gynharach. Cydnabuwyd bod her y Pwyllgor ar faterion o'r fath yn rhan bwysig o'r broses.
- **Canlyniadau -** mynegodd y Pwyllgor ei farn na ddylai targedau a fethir a gorwariant ar y gyllideb heb ganlyniadau a chamau gweithredu lle y bo'n briodol, oherwydd yn y dyfodol, mae'n bosibl na fydd gan y Cyngor gapasiti i ymdopi â gorwariant. Teimlai'r Aelodau fod angen i reolwyr fod yn atebol am orwariant na chawsant eu hawdurdodi'n benodol gan yr Uwch Dîm Rheoli neu gan yr arweinwyr gwleidyddol.
- **Meincnodi -** Nododd yr Aelodau fod cynnydd yn parhau i gael ei wneud wrth greu cymariaethau set data priodol ar gyfer y Cyngor. Mae hwn yn ddatblygiad hir-ddisgwyliedig.
- **Perfformiad a chyllid -** Ailadroddodd y Pwyllgor bwysigrwydd cysylltiadau cryf rhwng adrodd ar gyllid (cyllidebu) ac ar berfformiad.

Dylai gosod targedau gynnwys paramedrau ariannol a nodau o ran arbedion.

- **Rhagweld tueddiadau -** mae'r Aelodau'n ystyried bod darogan tueddiadau lleol a chenedlaethol ar gyfer gwasanaethau plant yn effeithiol yn bwysig a nododd gwaith y Cyngor ar fesurau ataliol cynnar.
- **Cipio'r sefyllfa -** Gwelodd y Pwyllgor y gallai naratif yr adroddiad perfformiad chwarterol ddarlunio'r pwysau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu mewn rhai meysydd yn well. Mae'n bosibl y bydd angen ffocws ataliol ar hyn. Gofynnodd yr Aelodau i'r adroddiad roi ciplun yn y dyfodol o gynnydd yn erbyn pob blaenoriaeth a nod yn gynnar yn yr adroddiad.

## Briffiau ar ôl y Cabinet

***Pan na fydd amserlenni wedi caniatau ar gyfer craffu cyn gwneud penderfynu neu ddatblygu polisi, ac er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn parhau i gael y newyddion diweddaraf am ddatblygiadau, cynigion neu gynnydd, yn 2018/19 ystyriodd y Pwyllgor:***

- Adolygiad SAC ar Graffu (*Hyd '18)*
- Rheoli Cyfleusterau *(Tach '18)*
- Cyflawni Uchelgais Prifddinas - Rhaglen Moderneiddio *(Mawrth '19)*
- Cyflawni Uchelgais Prifddinas - Rhaglen Gwydnwch *(Ebrill '19)*
- Adolygiad SAC o Gyflawni Uchelgais Prifddinas (*Mai '19)*

### Cyflawni'r Uchelgais Prifddinas

---

Bu Rhaglen Cyflawni Uchelgais Prifddinas y Cyngor, a sefydlwyd yn 2017, yn ganolbwynt canolog i waith y pwyllgor trwy gydol Mawrth, Ebrill a Mai 2019. Roedd graddfa'r rhaglen yn cyfiawnhau dau friff ar wahân, Ym mis Mawrth cafodd yr Aelodau eu briffio ar bortffolio *Moderneiddio* y rhaglen, gan ystyried y projectau a fydd yn cyflawni trawsnewid systemau a phrosesau corfforaethol sy'n cefnogi cyflawni gwasanaethau (*Landlord Corfforaethol, Dewis Digidol ac Adolygiadau o Wasanaethau)* Ym mis Ebrill, cafodd yr Aelodau eu briffio ar y portffolio *Gwasanaethau Gwydn,* gan ystyried projectau

a fydd yn cyflawni trawsnewid gwasanaeth rheng flaen (*Gwella canlyniadau i blant, gwella canlyniadau i oedolion, twf cynhwysol a Strydlun.*

n Dywedwyd wrth yr Aelodau bod strwythurau priodol, cerrig milltir clir a threfniadau llywodraethu ar waith i symud cyflawni'r Rhaglen Uchelgais Prifddinas ymlaen yn effeithiol. Fodd bynnag yn dilyn y briff ar y rhaglen Moderneiddio gwnaethant fynegi pryderon ynglŷn â sut y câi adolygiadau gwasanaethau yn y dyfodol eu hadnabod, gan amlygu nad oedd yn ymddangos bod proses dethol systematig neu set o feini prawf ar gyfer adnabod y gwasanaethau hynny a fyddai'n elwa ar gael eu hadolygu. Dangosodd yr Aelodau y gallai'r cynghorwyr gyfrannu at ddetholiad o'r fath, a fyddai'n croesawu'r cyfle i helpu wrth adnabod, dethol a blaenoriaethu'r gwasanaethau hynny sydd angen moderneiddio a gwella perfformiad.

Yn dilyn ei friff ar y portffolio *Gwasanaethau Gwydn* dywedodd y Pwyllgor wrth yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, gan fod y cyflwyniad wedi bod yn bennaf i roi gwybod i aelodau craffu o gwmpas ac ystod y portffolio, wrth fynd ymlaen, gellid ymgymryd â rhagor o graffu manwl o feysydd project penodol sy'n benodol i bob un o'r pwyllgorau craffu. Yn bwysig fel Cynghorwyr, mae gan Aelodau brofiad sylweddol o gael mynediad at wasanaethau rheng flaen y Cyngor, ac anogodd y rhai sy'n gyfrifol am wasanaethau rheng flaen i ymgysylltu â'r holl Aelodau wrth geisio asesu methiannau a gwneud gwelliannau.

Dros y cyfnod o fis Medi 2018 tan fis Mawrth 2019 cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) adolygiad i fonitro datblygu a gweithredu'r Rhaglen Cyflawni Uchelgais Prifddinas, er mwyn arsylwi'r trefniadau llywodraethu ar waith. Cyhoeddwyd ei adroddiad ym mis Ebrill 2019 a'i gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Mai 2019. Cynnig ar gyfer gwella oedd bod angen i'r Cyngor *gryfhau rôl craffu wrth ymgysylltu â, a herio cyflawni ac effaith y Rhaglen er mwyn cynyddu atebolrwydd a helpu darparu momentwm.* Ceisiodd yr Aelodau eglurder gan SAC o ran sut olwg yn union a fyddai ar graffu cryf ar y rhaglen.

Bydd y Pwyllgor yn ffactora monitro cyflawni'r rhaglen i mewn i'w drafodaethau i ddod ar raglennu gwaith 2019/20.

**Adolygu Craffu Swyddfa Archwilio Cymru - yn Addas i'r Dyfodol?**

---

Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd SAC ei adolygiad o graffu yng Nghaerdydd yr ymgymerwyd ag ef fel rhan o arolygiad cenedlaethol Addas i'r Dyfodol o bob un o'r 22 cyngor yng Nghymru. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod "*trefniadau craffu yng Nghaerdydd wedi'u datblygu'n dda a'u cefnogi gan ddiwylliant sydd yn eu rhoi mewn sefyllfa dda i*

*ymateb i heriau cyfredol a rhai'r dyfodol, ond gallai'r Cyngor fod yn fwy arloesol o ran sut y mae'n ymgymryd â gweithgarwch craffu"*.

Rhoddwyd pum Cynnig ar gyfer Gwella i'r Cyngor, i ystyried dulliau craffu mwy arloesol; ystyried y sgiliau a'r hyfforddiant y gallai aelodau craffu eu hangen o bosibl ar gyfer heriau yn y dyfodol; gwneud blaenraglenni gwaith pwyllgorau craffu yn fwy hygyrch i'r cyhoedd; ac i adolygu'r math ar gefnogaeth sydd ei hangen i alluogi'r swyddogaeth craffu i ymateb i heriau presennol a rhai'r dyfodol. Cyflwynwyd cynllun gweithredu i'r fynd i'r afael â'r cynigion i'r Pwyllgor, a bu cydnabyddiaeth y byddai hyn yn rhoi offeryn monitro effeithiol i'r Aelodau i arfarnu cynnydd dros amser.

## Craffu Gorchwyl a Gorffen

***Pan fydd y Pwyllgor yn ystyried bod cyfle i archwilio'n fanwl y materion a'r opsiynau ehangach sydd ar gael, i helpu'r Cyngor wrth wella'r ffordd y cyflawnir gwasanaeth:***

- Effaith Craffu (*parhaus*)

- Ymateb yn Cabinet i *Model Rheoli'r Ystâd o dan Landlord Corfforaethol (Tach '18)*
- Ymateb y Cabinet i *Arweinyddiaeth Cwsmeriaid (Rhag '18)*

**Effaith Craffu**

Eleni mae'r Pwyllgor wedi blaenoriaethu ymchwiliad gorchwyl a gorffen i arfarnu effaith y swyddogaeth craffu ar ddarparu gwasanaethau'r Cyngor. Bydd yn gwneud hyn trwy adolygu tystiolaeth bresennol o effaith craffu ar y Cyngor yn gwneud penderfyniadau ers 2012, a chynnig mecanwaith ar gyfer mesur a chipio effaith craffu yn y dyfodol Mae hyn wedi cynnwys adnabod modelau damcaniaethol ar gyfer cofnodi a chipio effaith; ceisio tystiolaeth o ymagweddau llwyddiannus at fonitro effaith gan Gynghorau eraill yng Nghyru a Lloegr; ac adnabod model ymarferol o gofnodi a chipio effaith sy'n briodol i'w ddefnyddio yng Nghaerdydd.

**Arweinyddiaeth Cwsmeriaid**

Ym mis Rhagfyr 2018, derbyniodd y Pwyllgor ymateb y Cabinet i'w adroddiad grŵp gorchwyl, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2018, yn nodi cyfleoedd i roi'r cwsmer wrth ganol darparu gwasanaethau'r Cyngor, ac yn gofyn am godi proffil gwasanaethau cwsmeriaid, yn wleidyddol ac yn weithredol. Roedd saith argymhelliad yn deillio o'r ymchwiliad, fodd bynnag dangosodd ymateb y Cabinet yn glir fod gwaith y Pwyllgor wedi rhoi platfform a'r ysgogiad i gryfhau canolbwyntio ar gwsmeriaid yn y Cyngor, gan hwyluso newid sylweddol o ran ymwybyddiaeth o wasanaeth cwsmeriaid, a chysondeb ledled y cyngor o ran safonau gwasanaethau cwsmeriaid. Roedd argymhellion y Pwyllgor yn gofyn am sifft diwylliannol a oedd yn galw am ymddygiad newydd gan reolwyr a staff, sy'n hanfodol wrth i'r Cyngor symud ei uchelgeisiau digidol ymlaen.

Mae gwasanaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid wedi cymryd ymagwedd o reoli projectau, gyda cherrig milltir a chyfrifoldebau clir wedi'u gosod ar gyfer pob un o saith argymhelliad y Pwyllgor, a chafodd y Pwyllgor ei friffio ar y ffordd yr oedd rheolwyr gwasanaethau cwsmeriaid wedi cofleidio'r argymhellion. Mae cynlluniau clir i ysgogi staff gyda chyfres strategol newydd o ddogfennau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid fel y man cychwyn ar gyfer sioe deithiol cwsmeriaid a Siarter Cwsmeriaid a gaiff ei lansio ar gychwyn cylch adolygiadau personol 2019/20.

Bydd hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid yn sicrhau bod yr holl aelodau staff yn deall pwy yw eu cwsmeriaid, ac felly croesawodd y Pwyllgor y cynnig o hyfforddiant cadarn i bawb, gan bwysleisio pwysigrwydd cynnwys yr holl staff, y bydd yn ei fonitro yn y dyfodol.

Unwaith eto amlygodd y Pwyllgor y ffaith bod gan Aelodau brofiad sylweddol o gael mynediad at wasanaethau rheng flaen Cyngor, ac anogodd y gwasanaeth i ymgysylltu â'r holl Aelodau wrth arfarnu strategaeth gwasanaethau cwsmeriaid y Cyngor a ble mae angen gwelliant.

**Rheoli'r Ystâd dan Fodel Landlord Corfforaethol**

Ym mis Tachwedd 2018, ystyriodd y Pwyllgor ymateb y Cabinet i'w adroddiad grŵp gorchwyl, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2018, yn archwilio heriau rheoli ystâd amhreswyl y Cyngor yn ganolog, o dan fodel Landlord Corfforaethol. Darparodd yr ymchwiliad dair thema a ddaeth i'r amlwg: *sicrhau prynu i mewn corfforaethol* ar gyfer y model, *polisiau a phrosesau* sy'n gysylltiedig â gweithredu a *buddion gweithredu'r model yn llwyddiannus.* Eto cyhoeddodd nifer o argymhellion a oedd wedi'u hystyried yn ofalus i'r Cabinet eu hystyried a chanolbwyntio arnynt.

Croesawyd yr ymchwiliad yn gadarnhaol gan y Cabinet, ac mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion. Clywsom fod staff sy'n cefnogi'r swyddogaeth buddsoddi mewn ysgolion ac ystadau wedi symud i mewn i' Gyfarwyddiaeth Buddsoddi a Datblygu, ac o ganlyniad roedd gweithredu'r Model Landlord Corfforaethol o fewn portffolio Cabinet unigol. Gan edrych ymlaen cynlluniwyd llawer o newidiadau ar gyfer swyddogaeth Gwasanaethau Adeiladu Gwasanaethau Eiddo, gyda'r bwriad o wella ansawdd gwaith adeiladu trwy gomisiynu ac arolygu effeithiol.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai rhaglen cynnal a chadw ataliol fod ar waith ar gyfer pob ased y Cyngor. Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oes digon o gyllideb i fynd i'r afael â'r rhaglen cynnal a chadw lawn sydd ei hangen ar gyfer asedau presennol, ac mae rhaglen cyflwr yn cael ei datblygu, er mwyn galluogi blaenoriaethau i gael eu gosod. Felly byddwn yn rhaglennu craffu ar y Cynllun Tir Corfforaethol a Chynnal a Chadw Eiddo nesaf.

Parthed ysgolion, cytunodd y Pwyllgor ei fod yn hanfodol blaenoriaethu a mwyafu gwerth o'r arian Band B sydd ar gael, megis cyfuno atgyweiriadau tebyg er mwyn caffael prisiau tendro tebyg. Felly mae Aelodau'n awyddus i sicrhau bod ysgolion yn glir am y pwynt lle byddant yn gofyn am gefnogaeth Landlordiaid Corfforaethol wrth ddefnyddio adeiladwyr lleol.

## Cyfleoedd Rhaglennu Gwaith y Dyfodol 2019/20

Mae nifer o eitemau y bydd angen eu cario ymlaen ac ail-ymweld â nhw yn dilyn gwaith eleni. Mae pynciau a gyflwynwyd i Bwyllgor 2019/20 i'w hystyried yn ei waith yn cynnwys:

- Adroddiad blynyddol cyntaf Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdyd.
- Parhau gyda diddordeb y Pwyllgor mewn sut y gall y Cyngor leihau ei ddefnydd o weithwyr asiantaeth.
- Ymglymiad cyn penderfynu/cyhoeddi yn ymgynghoriad cyllidebol 2020/21.
- Craffu/mynediad at wariant ar ymgynghoriad allanol am y flwyddyn ariannol bresennol wrth graffu ar y gyllideb ddrafft arfaethedig.
- Strategaeth Ddigidol - craffu ar y cynllun gweithredu sy'n dilyn egwyddorion allweddol y Strategaeth Ddigidol, hefyd craffu cynigion drafft ar gyfer trafodion App arfaethedig.
- Cyflawni Uchelgais Prifddinas - monitro cyflawni'r rhaglen.
- Adroddiad Llesiant Perfformiad Blynyddol
- Diweddariadau ar gynnydd ar y ffocws corfforaethol ar arweinyddiaeth cwsmeriaid.
- Craffu ar y Cynllun Tir Corfforaethol a Chynnal a Chadw Eiddo.
- Monitro cofnod absenoldeb a salwch y Cyngor yn barhaus.
- Adolygu cynnydd Cynllun Gweithredu Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog

## CYLCH GORCHWYL PWYLLGORAU

- Craffu, monitro ac adolygu'r gwaith o weithredu Rhaglen Gwella Caerdydd drwyddi draw ac effeithiolrwydd y gwaith cyffredinol weithredu polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor.

- Craffu, monitro ac adolygu effeithiolrwydd systemau'r Cyngor o reoli a gweinyddu ariannol a defnydd adnoddau dynol.

- Asesu effaith partneriaethau gyda, ac adnoddau a gwasanaethau a roddir gan, sefydliadau allanol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, gwasanaethau ar y cyd llywodraethau lleol, cyrff cyhoeddus a ariennir gan Lywodraeth Cymru a chyrff lled-adrannol anllywodraethol ar effeithiolrwydd gwasanaethau’r Cyngor.

- Adrodd mewn cyfarfod Cabinet neu Gyngor perthnasol a rhoi argymhellion ynghylch mesurau a all wella perfformiad y Cyngor a’i wasanaethau yn y maes.

Gwasanaethau Craffu, Dinas a Sir Caerdydd,
Ystafell 263d, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW
02920 873017 E-bost: barngraffu@caerdydd.gov.uk
© 2017 Cyngor Dinas a Sir Caerdydd